

Nodyn polisi i Aelodau'r Cynulliad: Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018

1. Y Cefndir

Crëwyd system newydd **Safonau'r Gymraeg** o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Y nod oedd disodli'r **Cynlluniau Iaith Gymraeg** a oedd yn weithredol dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Llwyddodd y Cynlluniau Iaith i godi proffil gwasanaethau a ddylai fod ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg, yn ogystal â sicrhau bod llawer o'r gwasanaethau hynny yn cael eu darparu. Pan nad oedd yr ymrwymadau yn y Cynlluniau yn cael eu bodloni, fodd bynnag, nid oedd y drefn orfodi yn effeithiol.

Mae'r Safonau wedi'u drafftio mewn ffordd sy'n adeiladu ar y Cynlluniau. Dan y Safonau, bydd yn ofynnol i sefydliadau fynd ati mewn ffordd fwy rhagweithiol a strategol i roi lle canolog i'r Gymraeg. Yn eu hanfod, mae'r Safonau yn gryfach na Chynlluniau Iaith. Mae Mesur 2011 yn rhoi amrywiol fesurau gorfodi i'r Comisiynydd sy'n gryfach na'r drefn fonitro a oedd yn ei lle ar gyfer y Cynlluniau Iaith. Mae pob safon yn ei gwneud yn glir i'r sefydliad beth sydd angen ei wneud i gydymffurfio, ac yn dweud yn glir wrth y defnyddiwr beth y gall ei ddisgwyl. Roedd y Cynlluniau Iaith yn annelwig iawn yn aml, heb ddweud yn bendant pa lefel o wasanaeth ddylai fod yn cael ei ddarparu yn Gymraeg.

2. Y broses o wneud Safonau

Yn y lle cyntaf, bydd Comisiynydd y Gymraeg yn cynnal ymchwiliadau safonau i weld os yw corff yn atebol i gydymffurfio â'r Safonau, ac i ba raddau. Cafodd cyrff y sector iechyd eu cynnwys yn **ail ymchwiliad safonau** Comisiynydd y Gymraeg. Wrth baratoi Rheoliadau ar gyfer cyrff sector iechyd, rhoddwyd ystyriaeth i adroddiadau ymchwiliad y Comisiynydd.

Wrth baratoi Rheoliadau sy'n gosod Safonau, mae ymrwymadau a wnaed mewn Cynlluniau Iaith yn cael eu dadansoddi. Mae ymrwymadau a wnaed yng nghynlluniau cyrff o'r sector iechyd yn dangos **awydd** i ddarparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, roedd yr awydd hwnnw yn aml yn fwy na'r **gallu mewn gwirionedd i ddarparu'r gwasanaethau hynny ar draws pob lleoliad a darpariaeth**.

Unwaith i'r Rheoliadau gael eu gwneud, bydd y **Comisiynydd yn dewis pa Safonau mae am eu gosod ar gyrrff** sy'n cael eu henwi yn y Rheoliadau hynny. Nid yw gwneud Rheoliadau yn golygu y bydd gofyn i'r cyrff gydymffurfio â'r holl Safonau sydd yn y Rheoliadau. Mae'r Rheoliadau yn ddewislen o Safonau y gall Comisiynydd y Gymraeg ddewis ohonynt i'w gosod ar gorff penodol. Gall corff apelio wrth y Comisiynydd yn erbyn unrhyw safonau y mae'n ofynnol iddo gydymffurfio â nhw ar y sail ei bod yn afresymol neu anghymesur iddo gydymffurfio.

3. Ymgynghoriad ar y Safonau drafft

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Rheoliadau drafft ar gyfer cyrff yn y sector iechyd rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2016.

3.1 Pam cymryd mor hir i gynhyrchu'r Rheoliadau hyn?

Cafwyd nifer sylweddol o ymatebion amrywiol i'r ymgynghoriad. Daeth 88 ymateb ysgrifenedig i law, ac roedd rhaid ystyried sylwadau a wnaed mewn digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus ac mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng swyddogion a rhanddeiliaid. Roedd y rhain yn cynnwys cyfarfodydd gydag uwch reolwyr pob Bwrdd ac Ymddiriedolaeth Iechyd, Rheoleiddwyr Gofal Iechyd Proffesiynol, a Chymdeithas yr Iaith. Roedd angen cydlynu polisi yn ofalus hefyd er mwyn sicrhau bod y Rheoliadau yn ategu blaenoriaethau ac amcanion polisi iechyd ehangach y Llywodraeth ac i wneud yn siŵr eu bod yn adeiladu ar nodau *Mwy na Geiriau...*

Mae'r ymagwedd tuag at ofal sylfaenol yn benodol wedi bod yn destun trafodaethau polisi hir. Mae gofal sylfaenol wedi bod yn flaenoriaeth i'r Comisiynydd ers amser, a dyna destun ei hymchwiliad *Fy iaith, fy iechyd* yn 2014. Gwnaeth argymhelliad penodol am ofal sylfaenol hefyd yn Adroddiad yr Ymchwiliad Safonau. Roedd prinder safonau ynghylch gofal sylfaenol hefyd yn fater a godwyd mewn ymatebion i'r ymgynghoriad.

4. Newidiadau i'r Rheoliadau ar ôl yr Ymgynghoriad

O ganlyniad i'r sylwadau a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad, gwnaed y newidiadau canlynol i'r Rheoliadau drafft:

4.1 Ymgynghoriad Clinigol (Safon 25 ddrafft)

Byddai Safon 25 ddrafft (o'i gorfodi) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff gynnig **cymorth** Cymraeg yn ystod ymgynghoriad clinigol. Nid oedd yn rhoi hawl i unigolion gael ymgynghoriad clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg. Ystyr cymorth Cymraeg oedd sicrhau bod yr unigolyn wedi deall popeth yn ystod yr ymgynghoriad hwnnw. Gallai'r cymorth fod wedi cael ei ddarparu drwy, er enghraifft, ofyn yn Gymraeg a oedd wedi deall, neu ddarparu cyfieithiad. Fodd bynnag, roedd y Safon 25 a fu'n destun ymgynghoriad yn golygu, er nad oedd yr ymgynghoriad clinigol o bosib yn Gymraeg, y byddai gan yr unigolyn siaradwr Cymraeg yn bresennol (neu ben arall y ffôn) i roi tawelwch meddwl iddo ac i sicrhau ei fod wedi deall yr hyn oedd yn cael ei ddweud.

Daeth y sylwadau canlynol i law ynghylch y cynnig hwn yn ystod yr ymgynghoriad:

- Cydnabyddiaeth bod medru darparu ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg yn fanteisiol i gleifion, ac y gallai'r manteision fod yn fwy i blant ifanc a'r henoed (fodd bynnag, nid oedd y Safon 25 ddrafft yn cyflawni hyn ohoni ei hun, gan mai dim ond cynnig cymorth Cymraeg a wnaed).

- Pryder ynghylch ymarferoldeb cydymffurfio â'r Safon dan yr holl amgylchiadau, megis damweiniau ac achosion brys pan fo'n hanfodol bwysig darparu gofal yn brydlon, a chleifion allanol pan fo nifer fawr o wahanol gleifion yn cael eu gweld un ar ôl y llall.
- Pryder ynghylch ymarferoldeb trefnu cymorth cyfrwng Cymraeg ym mhob achos o ryngweithio clinigol y claf ar ymweliad ag ysbyty. Gall fod yn bosibl rhagweld rhai o'r rhyngweithiadau hyn o flaen llaw a chynllunio cymorth cyfrwng Cymraeg lle bo angen. Fodd bynnag, gallai fod yn ofynnol i'r claf ymweld â mwy nag un adran neu gael ei weld gan wahanol ymarferwyr na ragwelwyd, a fyddai'n ei gwneud yn anodd i'r corff gydymffurfio â'r Safon.
- Cafwyd pryderon y byddai darparu cymorth cyfrwng Cymraeg yn golygu bod yr ymgynghoriadau clinigol yn cymryd mwy o amser, a fyddai yn ei dro yn ei gwneud yn anos cyrraedd targedau statudol eraill.
- Mynegwyd pryderon y gallai pwyslais geiriau'r claf gael ei golli pe bai cyfieithydd yn cael ei ddefnyddio.
- Priodoldeb cyflwyno person arall, megis cyfieithydd, i fod yn bresennol mewn ymgynghoriad clinigol, a gallu'r cyrff i ddod o hyd i ddigon o gyfieithwyr â phrofiad o weithio mewn sefyllfaoedd meddygol.
- Mae gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn gweithio yn unol â safonau proffesiynol sy'n cael eu rheoleiddio. Mynegwyd pryder y gallai cyflwyno rôl ychwanegol, amhendant i ymgynghoriad (darparu cymorth cyfrwng Cymraeg) gynyddu'r risg glinigol i'r clinigydd a'r corff.

Mae'r pryderon a fynegwyd gan y cyrff y gellid gofyn iddynt gydymffurfio â'r Safon ddrafft yn dangos yn glir na fyddai modd i unrhyw un o'r cyrff gydymffurfio â'r Safon hon ar bob achlysur. Ar sail y dystiolaeth hon, ac yn arbennig y prinder sgiliau Cymraeg ymysg y gweithlu, rydym o'r farn nad yw'n rhesymol cynnwys y Safon hon gan ei bod yn annhebygol y byddai unrhyw un o'r cyrff yn medru cydymffurfio'n gyson.

4.2 Y dull gweithredu newydd

Mae'r Rheoliadau yn dilyn dull gweithredu gwahanol a fydd yn y tymor hirach yn sicrhau gwell canlyniad i gleifion Cymraeg eu hiaith gan y bydd y cyrff yn gweithio tuag at ddarparu ymgynghoriadau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn hytrach na dim ond darparu cefnogaeth gyda'r Gymraeg. Mae'r dull gweithredu hwn yn ddilyniant naturiol o'r Cynlluniau Iaith presennol a *Mwy na Geiriau ...*

Dyma'r Safonau arfaethedig;

Safonau 110 a 110A

Mae'r Safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff **gyhoeddi cynllun 5 mlynedd** yn nodi i ba raddau y mae modd iddynt gynnig cynnal ymgynghoriadau clinigol drwy gyfrwng y Gymraeg, **y camau y byddant yn eu cymryd i wella'u gallu i gynnig ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg ac amserlen ar gyfer y camau gweithredu hynny**. Bydd gofyn i'r cyrff adrodd ar i ba raddau y maent wedi cydymffurfio â'r cynllun ar ddiwedd blynyddoedd 3 a 5.

Gallai cyrff ganolbwyntio ar wella mewn meysydd meddygol penodol fel iechyd meddwl, gofal dementia neu ofal babanod, neu mewn ardaloedd daearyddol penodol lle mae'r mwyaf o alw am ofal iechyd cyfrwng Cymraeg.

Safonau 23-24

Mae'r Safonau hyn yn adeiladu ar arfer da a ddatblygwyd yn Ysbyty Cwm Rhondda a gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Maent yn ei gwneud yn ofynnol i gyrrff holi cleifion mewnol **ar y diwrnod cyntaf y maent yn cael eu derbyn os ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg**. Rhaid i'r corff dynnu sylw'r staff os yw claf mewnol yn dymuno cyfathrebu yn Gymraeg. Nid yw hyn yn gosod dyletswydd ar y corff i ddarparu gwasanaeth cyfrwng Cymraeg, ond bydd mesurau fel bathodyn iaith gwaith ar fwrdd uwchben gwely'r claf yn **caniatáu i staff Cymraeg eu hiaith ddechrau sgwrs gyda'r claf yn Gymraeg**. Mae'r Safon hon yn rhoi sail ddeddfwriaethol i'r arferion gorau presennol.

Safon 101

Bydd y Safon hon yn rhoi cyfleoedd i weithwyr sydd am wella'u sgiliau Cymraeg dderbyn hyfforddiant iaith Gymraeg.

Bydd y **safonau newydd hyn ynghyd â safonau eraill arfaethedig fel Safon 97**, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gorff asesu sgiliau iaith eu gweithwyr, yn **helpu cyrff i wella cynllun a threfn eu gweithlu** i ddiwallu'r galw am wasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Ar wahân i'r system Safonau, mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol eisoes yn gweithio tuag at wella gallu'r gwasanaeth iechyd i gynnig gwasanaethau cyfrwng Cymraeg. Mae dysgu cyfrwng Cymraeg yn cynyddu, ac mae myfyrwyr meddygol sy'n medru siarad Cymraeg yn cael rhai modiwlau drwy gyfrwng y Gymraeg, gan godi eu hyder i ddefnyddio'r iaith mewn lleoliad proffesiynol.

4.3 Gofal Sylfaenol

Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, Cymdeithas yr Iaith a rhai aelodau o'r cyhoedd nad oedd y safonau yn mynd yn ddigon pell mewn perthynas â gofal sylfaenol, rydym yn cynnig y gwelliannau canlynol i'r safonau drafft:

- (1) Bydd yn rhaid i wasanaethau gofal sylfaenol sy'n cael eu darparu'n uniongyrchol gan fyrddau iechyd lleol gydymffurfio â Safonau. Golyga hyn bod y Rheoliadau yn trin y gwasanaethau gofal sylfaenol sy'n cael eu darparu gan Fyrddau Iechyd Lleol yn yr un ffordd â gwasanaethau gofal eilaidd. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws iddynt gynllunio a threfnu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws eu gwasanaethau. Rydym yn ystyried bod hyn yn gam cyntaf pwysig i wella gwasanaethau cyfrwng Cymraeg o fewn gofal sylfaenol.

(2) Credwn mai'r ffordd fwyaf rhesymol a chymesur o osod rhwymedigaethau yn ymwneud â'r Gymraeg ar y darparwyr gofal sylfaenol annibynnol yw drwy'r trefniadau contractiol rhyngddynt a'r byrddau iechyd lleol. Bydd y drefn hon yn defnyddio systemau contract ac adrodd presennol sy'n gyfarwydd i'r sector, sicrhau dull gweithredu cyson i'r holl gontractwyr a chreu rhwymedigaethau y gall byrddau iechyd lleol eu gorfodi. Bydd swyddogion yn dechrau trafod â chyrrff sy'n cynrychioli'r contractwyr i gytuno ar y rhwymedigaethau.

Gyda'i gilydd, rydym yn ystyried y bydd y dull gweithredu arfaethedig yn cyflwyno dyletswyddau ar y lefel gywir mewn ffordd resymol a chymesur.

Drwy Cymraeg Byd Busnes¹ mae Llywodraeth Cymru yn profi prosiect mewn dwy ardal i ddarparu cymorth a chefnogaeth i ddarparwyr gofal sylfaenol er mwyn eu helpu i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg. Bydd hyn yn darparu cymorth o'r tu allan i'r fframwaith rheoleiddio i helpu busnesau unigol i gynyddu a gwella eu defnydd o'r Gymraeg.

4.4 Symleiddio safonau

Rydym wedi ymrwymo i ddiwygio Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac edrych eto ar y broses o osod Safonau. Roedd tystiolaeth a gyflwynwyd gan gyrff yn ystod sesiynau casglu tystiolaeth wrth baratoi'r Papur Gwyn ar ddeddfwriaeth iaith Gymraeg a gyhoeddwyd ym mis Awst yn amlygu canfyddiad bod y Safonau yn feichus, yn gymhleth ac yn anodd eu gweithredu oherwydd eu nifer. Wrth adolygu'r Rheoliadau drafft, rydym hefyd wedi bod yn edrych am gyfleoedd i leihau nifer y Safonau heb amharu ar nod y polisi o hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae rhai Safonau wedi cael eu huno, a rhai Safonau a oedd yn cael eu hystyried yn rhy feichus neu fiwrocrataidd wedi'u dileu. Mae hyn wedi arwain at 64 yn llai o Safonau i gyd.

4.5 Dyfarnu contractau (Safonau arfaethedig 57 – 59)

Mae gwaith caffael GIG Cymru yn cael ei gyflawni ar ran y cyrrff iechyd drwy Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru sy'n rhan o Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Bob blwyddyn byddai tua 1,000 o becynnau tendro wedi cael eu dal gan y safonau drafft. Gall tendr fod o gwmpas 800 tudalen a chostio rhwng £7,000 - £10,000 i'w gyfieithu. Rydym yn ystyried ei bod yn afresymol gosod dyletswydd ar gyrff iechyd i gyfieithu pob un o'r pecynnau hyn. Felly rydym wedi diwygio Safon 57 fel nad oes rhaid cynhyrchu tendr yn Gymraeg oni bai bod testun y contract yn awgrymu y dylid gwneud hynny. Disgwylir y byddai

¹ Mae [Cymraeg Byd Busnes](#) yn contractio 10 o weithwyr, drwy Fentrau Iaith Cymru, i weithio'n uniongyrchol gyda chwmnïau sector preifat i wella eu defnydd o'r Gymraeg a gwella'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu ganddynt yn Gymraeg.

tendrau o'r fath yn ymwneud â gwasanaethau cyfieithu a hyfforddiant yn ymwneud â'r Gymraeg.

Mae hyn yn adlewyrchu dull gweithredu a fabwysiadwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r Comisiynydd ond yn ei gwneud yn ofynnol i rai awdurdodau lleol ddarparu pecyn tendro yn Gymraeg os yw (a) testun y contract yn awgrymu y dylid gwneud hynny a (b) y gynulleidfa ddisgwyliedig (hynny yw y cwmnïau sy'n debyg o dendro) a'u disgwyliadau yn awgrymu y dylid cynhyrchu'r ddogfen yn Gymraeg.

Gellir cyflwyno ceisiadau tendro yn Gymraeg boed i'r gwahoddiad i dendro gael ei gyhoeddi yn Gymraeg neu beidio.

4.5 Ymchwil

Roedd rhai o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn dadlau yn erbyn eithrio ymchwil o'r safonau cyflenwi gwasanaethau.

Mae byrddau iechyd lleol yn gweithio'n gynyddol mewn partneriaeth ar ymchwil a datblygu gyda Phrifysgolion sy'n ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) nad ydynt yn berthnasol mewn perthynas ag ymchwil. Fe gafodd ymchwil ei eithrio o'r Rheoliadau hynny. Gan ystyried y cydweithio rhwng y Prifysgolion a'r cyrff sector iechyd, rydym yn ystyried ei bod yn rhesymol trin ymchwil yn yr un ffordd yn y Rheoliadau sector iechyd.

4.6 Cynadleddau achos (Safon arfaethedig 25)

Mewn ymateb i'r pryderon y byddai trefnu cyfieithu dwy ffordd yn arwain at oedi mewn cynadleddau achos, a allai niweidio'r claf, rydym wedi diwygio'r Safon arfaethedig er mwyn i'r Safonau fod yn berthnasol i gynadleddau achos sy'n cael eu trefnu o leiaf bum diwrnod gwaith o flaen llaw yn unig.

4.7 Ysbytai Preifat

Gofynnodd rhai o'r ymatebwyr i ni ailystyried eithrio ysbytai preifat yng Nghymru o'r Rheoliadau. Roeddent yn dadlau y dylai ysbytai preifat sy'n darparu gwasanaethau ar ran byrddau iechyd gael eu trin yn yr un ffordd ag is-gontractwyr eraill.

Rydym wedi ystyried y dadleuon hyn ac yn sgil nifer isel y cleifion dan sylw, rydym yn ystyried y byddai costau cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg mewn ysbytai preifat yn drech nag unrhyw fanteision posib. Yn 2015/16 fe gafodd llai na 2,500 o gleifion GIG Cymru eu trin mewn ysbytai preifat, sydd tua 1% o'r derbyniadau wedi'u cynllunio. Nid ydym felly o'r farn y byddai'n rhesymol nac

yn gymesur gosod Safonau ar fyrddau iechyd lleol a fyddai'n eu dal yn gyfrifol am fethiant ar ran ysbyty preifat i gydymffurfio â'r Safonau.

5. Gofal Cymdeithasol Cymru

Mae'r Rheoliadau yn ychwanegu Gofal Cymdeithasol Cymru at y cyrff y gellid ei gwneud yn ofynnol iddynt gydymffurfio â'r Safonau yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) 2016. Ni fydd y rheoleiddwyr gofal iechyd eraill sy'n gweithredu ar draws y DU, a oedd wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau drafft, bellach yn cael eu cynnwys. Ystyrir ei bod yn fwy priodol paratoi cyfres wahanol o Rheoliadau ar gyfer y cyrff hyn gan mai ychydig iawn sydd ganddynt yn gyffredin â'r cyrff eraill sydd wedi'u cynnwys yn Rheoliadau (Rhif 4). Maent wedi'u hariannu'n llwyr gan y rhai sydd wedi cofrestru ac yn cynnig gwasanaethau ar draws y DU, ac nid oes ganddynt unrhyw eiddo yng Nghymru (ar wahân i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol sydd â swyddfa fach yng Nghaerdydd nad yw ar agor i'r cyhoedd).